**Rhif: WG52335**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Cod Ymarfer ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig

Medi 2025

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron xxxx ISBN Digidol

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus Llywodraeth Cymru a gynhaliwyd rhwng 7 Ebrill a 30 Mehefin 2025 ar God Ymarfer drafft ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig.

## Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Cangen Polisi Cartrefi Gofal
Yr Is-adran Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: TimCartrefiGofal@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori: Cod ymarfer ar ansawdd, pryderon a chau gwasanaethau gofal a chymorth | LLYW.CYMRU

## Cynnwys

Cynnwys .... 2
Adran 1 .... 3
1.1 Cyflwyniad .... 3
1.2 Y cyd-destun a'r rhesymeg .... 3
1.3 Yr ymgynghoriad hwn .... 5
1.4 Yr ymateb i'r ymgynghoriad .... 6
Adran 2 – Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd ac ymateb Llywodraeth Cymru .... 7
2.1 Sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig .... 7
2.2 Uwchgyfeirio pryderon mewn gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig .... 10
2.3 Datgomisiynu .... 13
2.4 Cau gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig .... 15
2.5 Y Gymraeg .... 16
2.6 Unrhyw faterion penodol sy'n gysylltiedig ond nad ydynt yn cael eu trafod yn yr ymgynghoriad .... 17
Adran 3 – Y camau nesaf .... 19
Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr .... 20

## Adran 1

### 1.1 Cyflwyniad

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('Deddf 2014') yn rhoi'r pŵer o dan adran 145 i Weinidogion Cymru ddyroddi codau ymarfer sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu yn unol â gofynion yn y cod ymarfer wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Rhaid i awdurdodau lleol hefyd roi sylw i unrhyw ganllawiau sydd wedi eu cynnwys yn y cod ymarfer.

Mae adran 169 o Ddeddf 2014 ac adrannau 2, 12 a 19 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ('Deddf 2006') yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG. Caiff byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG eu cyfarwyddo i arfer eu swyddogaethau perthnasol yn unol â'r gofynion yn y cod ymarfer.

Mae comisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y boblogaeth leol gymwys yn un o swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Daeth y *Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru: Cod Ymarfer* ('y Fframwaith Cenedlaethol') i rym ar 1 Medi 2024 ac mae'n berthnasol i brosesau comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru. Mae'n nodi egwyddorion a safonau ar gyfer arferion comisiynu a threfniadau contractio, gan gynnwys systemau monitro priodol fel y gall partneriaid statudol gael sicrwydd ynghylch cydymffurfiaeth.

Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar God Ymarfer drafft ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig ('y Cod drafft'). Mae'n ategu'r Fframwaith Cenedlaethol ac yn canolbwyntio ar wasanaethau gofal a chymorth a reoleiddir o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ('Deddf 2016'). Bwriedir iddo ddisodli'r canllawiau statudol ar '*Uwchgyfeirio Pryderon ynghylch Cartrefi Gofal sy'n Darparu Gwasanaethau i Oedolion a Chau'r Cartrefi Hynny*' a gyhoeddwyd yn 2009.

### 1.2 Y cyd-destun a'r rhesymeg

Ceir manylion llawn am gyd-destun yr ymgynghoriad hwn a'r rhesymeg drosto yn y brif ddogfen ymgynghori, sydd ar gael yma. Isod, ceir crynodeb o'r pwyntiau allweddol:

Mae awdurdodau lleol yn ddarparwyr gwasanaethau ac yn gomisiynwyr gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig. Mae awdurdodau lleol hefyd yn gwneud gwaith comisiynu cydweithredol, ar y cyd neu integredig gyda byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru.

Mae byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yn comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig a gallant ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig fel cartrefi gofal â gofal nyrsio, a gwasanaethau cymorth cartref.

At ddibenion y Cod drafft, cyfeirir at awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG fel ‘Comisiynwyr’.

Er mwyn sicrhau bod gan y Cod drafft rym cymaradwy mewn perthynas ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG, bydd Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru o dan Ddeddf 2006 i arfer eu swyddogaethau perthnasol yn unol â'r gofynion sydd wedi eu cynnwys yn y Cod drafft.

Caiff y Cod drafft ei ategu gan becyn cymorth sy'n cynnwys templedi arfer da ac enghreifftiau. Mae llawer o'r templedi wedi cael eu haddasu o'r rhai a ddatblygwyd gan randdeiliaid i'w defnyddio'n lleol. Bydd y pecyn cymorth ar gael drwy Gymuned Pecyn Cymorth y Fframwaith Cenedlaethol (Comisiynu) ar blatfform Cymunedau Gofal Cymdeithasol Cymru a chaiff ei gynnal gan y Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth. **Nid** yw'r pecyn cymorth yn rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

### Sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig

Mae'r adran hon o'r Cod drafft yn amlygu pwysigrwydd ffordd o weithio system gyfan sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i bobl wrth sicrhau ansawdd gwasanaethau a gomisiynir. Mae'n cadarnhau pwysigrwydd sicrhau ansawdd o fewn system rheoli ansawdd ehangach a diwylliant o wella a dysgu parhaus.

Mae'n disgrifio cylch rheoli ansawdd effeithiol. Mae'n nodi pwysigrwydd cydweithio â darparwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill i sicrhau ansawdd gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig a gomisiynir.

Mae'n rhoi arweiniad ar ddogfennau cytundebol. Mae'n annog Comisiynwyr i weithio'n rhagweithiol i sicrhau ansawdd gwasanaethau rheoleiddiedig a gomisiynir er mwyn atal gweithdrefnau uwchgyfeirio pryderon rhag cael eu rhoi ar waith yn ddiangen. Mae'n cynnwys gofynion i roi prosesau effeithiol ar waith i gasglu, cofnodi ac adolygu adborth gan randdeiliaid ac asesu risgiau i lesiant a diogelwch unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Mae'n nodi proses i gymryd camau gwella lle bo angen, gan gynnwys rôl darparwyr gwasanaethau yn y broses hon.

### Uwchgyfeirio pryderon mewn gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig

Mae'r adran hon o'r Cod drafft yn rhoi canllawiau ar y meini prawf ar gyfer uwchgyfeirio pryderon yn ogystal â'r strwythur a'r prosesau a ddylai fod ar waith i reoli pryderon sydd wedi'u huwchgyfeirio a gwneud penderfyniadau yn eu cylch. Canolbwyntir ar wella ansawdd y gwasanaeth gofal a chymorth rheoleiddiedig a diogelu unigolion a, lle y bo'n bosibl, atal achosion o gau neu ddatgomisiynu (terfynu contract) gwasanaethau lle gellid osgoi hynny. Mae'n cynnwys gwybodaeth am atal lleoliadau dros dro.

### Datgomisiynu

Mae'r adran hon o'r Cod drafft yn disgrifio'r amgylchiadau pan gallai fod yn briodol ystyried datgomisiynu. Mae'n canolbwyntio ar bwysigrwydd sicrhau parhad gwasanaeth i ddiwallu anghenion pobl, cynnal sgiliau, profiad a gwybodaeth y gweithlu, cyfathrebu a hysbysiadau.

**Cau gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig**

Mae'r adran hon o'r Cod drafft yn ymdrin â chau gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig a allai ddigwydd yn wirfoddol neu drwy orfodaeth. Gall gwasanaeth gael ei gau am fod y darparwr wedi penderfynu o'i wirfodd i gau un neu fwy o'i wasanaethau neu adael y farchnad yn gyfan gwbl. Fel arall, gall gwasanaeth gael ei gau o ganlyniad i gamau gorfodi gan Arolygiaeth Gofal Cymru neu reoleiddwyr eraill (gan gynnwys yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch), hyfywedd ariannol, neu argyfwng y tu hwnt i reolaeth darparwr y gwasanaeth.

Mae'r Cod drafft yn amlinellu'r strwythurau a'r trefniadau yr argymhellir y dylid eu rhoi ar waith ac yn pwysleisio'r angen am rolau a chyfrifoldebau clir a chyfathrebu effeithiol er mwyn rheoli a chefnogi camau i gau gwasanaeth rheoleiddiedig yn ddiogel.

**1.3 Yr ymgynghoriad hwn**

Cynhaliwyd ymgynghoriad dros 12 wythnos rhwng 7 Ebrill a 30 Mehefin 2025. Gwnaethom wahodd ymatebwyr i gyflwyno eu safbwyntiau drwy'r ffurflen ar-lein, drwy e-bost neu drwy'r post. Cafodd fersiwn hawdd ei deall o'r ddogfen ymgynghori ei llunio hefyd. Anfonwyd e-bost at amrywiaeth o randdeiliaid â diddordeb yn y cynigion i'w hysbysu am yr ymgynghoriad. Y rhanddeiliaid hyn oedd:

- Aelodau Arweiniol Awdurdodau Lleol dros Ofal Cymdeithasol
- Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol
- Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
- Penaethiaid Gwasanaethau Plant
- Penaethiaid Gwasanaethau Oedolion
- Cadeiryddion y GIG
- Prif Weithredwyr y GIG
- Ysgrifenyddion Byrddau'r GIG
- Cydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru
- Gweithrediaeth y GIG
- Conffederasiwn GIG Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
- Arweinwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
- Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
- Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC)
- Comisiynydd Plant Cymru
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Archwilio Cymru
- Fforwm Gofal Cymru
- Fforwm Darparwyr Cenedlaethol
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)
- Plant yng Nghymru
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Anabledd Cymru
- Llais (Corff Llais y Dinesydd)
- Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio
- Cadeiryddion Byrddau Diogelu Rhanbarthol
- Cydgysylltwyr Busnes Byrddau Diogelu Rhanbarthol
- Rheolwyr Busnes Byrddau Diogelu Rhanbarthol
- Cymdeithas Cartrefi Plant
- Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant
- Cymdeithas Gofal Cartref
- Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru
- Maethu Cymru
- Shared Lives
- Grŵp Rhanddeiliaid y Cod Ymarfer

Cafodd yr ymgynghoriad ei hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol yn ystod y cyfnod ymgynghori.

**1.4 Yr ymateb i'r ymgynghoriad**

Cafodd Llywodraeth Cymru 41 o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Cafwyd tri ymateb gan unigolion, a chafwyd 35 o ymatebion ar ran sefydliadau (nid oedd yn hysbys pwy anfonodd y lleill). Ceir rhestr isod o'r sefydliadau a ymatebodd (a oedd heb nodi eu bod am aros yn ddienw):

- Pobl yn Gyntaf Cwm Taf (Rhondda Cynon Taf)
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Cymdeithas Syndrom Down
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda - Gofal Hirdymor, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu a Gwasanaethau Plant
- Comisiynydd Pobl Hŷn
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr - Gofal Cymdeithasol Plant ac Oedolion
- Grŵp Caron
- Anabledd Dysgu Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

- Fforwm Rhieni a Gofalwyr Pobl ag Anableddau Dysgu Cymru Gyfan
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Fforwm Gofal Cymru
- Cyngor Sir Powys - Gofal Cymdeithasol Oedolion
- Llais
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
- Unsain
- Age Cymru
- Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro
- Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful - Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru

## Adran 2 – Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd ac ymateb Llywodraeth Cymru

### 2.1 Sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig

**Cwestiwn 1** – I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r gofynion a osodir ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yn yr adran rheoli ansawdd a rheoli perfformiad o'r cod ymarfer?

**Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymatebion Llywodraeth Cymru**

Roedd 30 o ymatebwyr naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r gofynion arfaethedig yn yr adran hon o'r Cod drafft. Nododd tri ymatebydd nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno ac ni chafwyd ymateb gan wyth ymatebydd. Nid oedd unrhyw ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r gofynion arfaethedig.

Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r gofynion a osodir ar Gomisiynwyr a ffocws y Cod drafft, gan gynnwys sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad. Roeddent yn croesawu'r ffocws ar welliant parhaus, monitro canlyniadau a chydweithio. Roeddent yn teimlo bod y Cod drafft yn rhoi eglurder drwy nodi rolau a chyfrifoldebau penodol pob rhanddeiliad ac y bydd yn cynnig cysondeb ledled Cymru, gan osgoi achosion o gamddehongli a ffiniau niwlog. Roeddent hefyd o'r farn bod y gofynion yn gyson â dull comisiynu cefnogol a deallus. Nododd yr ymatebwyr fod y Cod drafft yn adlewyrchu protocolau lleol sydd ar waith yn barod. Roeddent yn croesawu'r pwyslais ar leihau unrhyw achosion o ddyblygu gofynion adrodd.

Awgrymodd yr ymatebwyr amrywiaeth o ddiwygiadau penodol i eiriad y Cod drafft er mwyn sicrhau eglurder a chywirdeb yn ogystal mandadu gofynion penodol drwy roi ‘rhaid’ yn lle ‘dylai’. Mae pob awgrym wedi cael ei ystyried yn ofalus ac mae diwygiadau priodol wedi cael eu gwneud lle bo hynny'n briodol. Er enghraifft, mae'r

Cod drafft wedi cael ei gryfhau drwy ei gwneud yn ofynnol i Gomisiynwyr gytuno ar natur ac amserlen cymorth ychwanegol â'r Unigolyn Cyfrifol a'r Rheolwr Cofrestredig a mandadu eu bod yn cadarnhau yn ysgrifenedig unrhyw gamau y byddant yn eu cymryd i gefnogi gwelliannau. Mae hyn yn cydnabod ffiniau cyfrifoldebau proffesiynol ac yn rhoi mwy o sicrwydd i ddarparwyr gwasanaethau. Fodd bynnag, byddai rhai o'r awgrymiadau hyn yn gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau yn hytrach na Chomisiynwyr ac mae hyn y tu hwnt i gwmpas y Cod drafft.

Cododd yr ymatebwyr oblygiadau posibl prosesau monitro o ran adnoddau a'r angen i sicrhau bod prosesau'n gymesur ac nad ydynt yn rhoi gormod o faich ar y sector. Er bod y Cod drafft hwn yn disodli canllawiau statudol 2009 ar *Uwchgyfeirio Pryderon ynghylch Cartrefi Gofal sy'n Darparu Gwasanaethau i Oedolion a Chau'r Cartrefi Hynny*, mae'n gosod disgwyliadau ar awdurdodau comisiynu statudol yng Nghymru i gynnal arferion comisiynu cyson ar draws gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig, mewn perthynas â'u cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf 2014. Mae rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau mwy o gysondeb a symleiddio prosesau comisiynu. Mae'r Cod drafft hwn yn:

- nodi manylion ac yn adeiladu ar arferion da presennol, sydd wedi dod i'r amlwg drwy weithio gyda grŵp o randdeiliaid gan gynnwys darparwyr, comisiynwyr a rheoleiddwyr;
- egluro disgwyliadau o ran arferion ym maes rheoli ansawdd, perfformiad, datgomisiynu a chau gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig.

Mae sgiliau a chapasiti comisiynu yn amrywio ledled Cymru. Dylid darllen y Cod drafft hwn ar y cyd â'r Fframwaith Cenedlaethol. Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau comisiynu statudol yng Nghymru sicrhau bod ganddynt sgiliau a chapasiti digonol i gyflawni pob elfen o'r cylch comisiynu. Rydym yn cydnabod y bydd angen adnoddau i ddechrau tra bod Comisiynwyr yn ymgyfarwyddo â'r Cod drafft, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddir pan gaiff y Cod drafft ei osod gerbron y Senedd.

Cododd sawl ymatebydd bwysigrwydd diogelu mewn ymateb i'r cwestiwn hwn a chwestiynau eraill yn yr ymgynghoriad. Ymhlith yr awgrymiadau a wnaed i gryfhau'r Cod drafft mae ychwanegu dolen at Weithdrefnau Diogelu Cymru a safonau hyfforddiant Gofal Cymdeithasol Cymru ac ymestyn y paragraff ar ymddygiad gweithwyr i gynnwys gweithwyr proffesiynol eraill. Rydym wedi diwygio'r Cod drafft a'r Eirfa yn unol â hynny ac rydym wedi ychwanegu paragraff at y Rhaglith sy'n amlygu cyfrifoldebau diogelu. Yn yr un modd, roedd yr adborth a gafwyd i'r cwestiwn hwn a chwestiynau eraill yn yr ymgynghoriad yn awgrymu y gellid cryfhau'r Cod drafft drwy gyfeirio'n benodol at wasanaethau eirioli drwy'r Cod drafft i gyd a'r siartiau llif. Rydym o'r farn bod yr wybodaeth a geir yn Rhaglith y Cod drafft a'r gofynion *Nghod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth)* yn ddigon cynhwysfawr ac nid ydym yn bwriadu diwygio'r Cod drafft.

Roedd yr adborth arall a gafwyd yn cynnwys:

- **Cadarnhau pryd y dylai Comisiynwyr hysbysu Comisiynwyr eraill am bryderon ynghylch ansawdd neu berfformiad.** Mae'r Cod drafft wedi cael

ei ddiwygio i nodi y byddai hyn yn digwydd pan fo pryderon o'r fath wedi arwain at gamau gwella gofynnol neu gynllun gweithredu gwella.

- **Symleiddio'r broses adrodd drwy borth a rennir.** Mae Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth Llywodraeth Cymru yn ystyried ffyrdd o oruchwylio marchnad gofal cymdeithasol genedlaethol yn y dyfodol, a allai gynnwys datrysiadau digidol ar gyfer adrodd a rheoli gwybodaeth.
- **Protocolau gwell ar gyfer rhannu data.** Mae'r Cod drafft yn annog yr arfer o rannu gwybodaeth ac yn annog Comisiynwyr a rhanddeiliaid i weithio gyda'i gilydd. Dylid darllen y Cod drafft ar y cyd â *Codau a Chanllawiau: Canllawiau Statudol Rhan 9 (Trefniadau Partneriaeth)* sy'n cynnwys cyfeiriad at reoliad 13 o Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Arolygiaeth Gofal Cymru, Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru.
- **Cynnwys amodau'r gweithlu fel dangosydd ansawdd.** Dylid darllen y Cod drafft ar y cyd â Safon 6 o'r Fframwaith Cenedlaethol sy'n disgrifio disgwyliadau o ran arferion comisiynu mewn perthynas ag arferion gwaith moesegol a theg.
- **Canllawiau cliriach ar gydgynhyrchu fframweithiau ansawdd gydag unigolion a'u cynrychiolwyr.** Dylid darllen y Cod drafft ar y cyd â Safon 1 o'r Fframwaith Cenedlaethol sy'n nodi bod disgwyl i Gomisiynwyr wreiddio gwerthoedd ac egwyddorion Deddf 2014 ym mhob gweithgaredd comisiynu.
- **Nid oedd y pecyn cymorth wedi'i gynnwys yn y ddogfen ymgynghori ac felly nid oedd modd ystyried y templedi.** Mae'r pecyn cymorth wedi cael ei ddatblygu o ddogfennau arferion da lleol a thempledi, gan gynnwys enghraifft o gynllun gweithredu gwella, sydd wedi cael eu haddasu ar gyfer pob gwasanaeth rheoleiddiedig. Nid yw'r Cod drafft yn mandadu defnyddio'r pecyn cymorth ac felly ni chafodd ei gynnwys yn yr ymgynghoriad cyhoeddus. Mae gan Gomisiynwyr yr hyblygrwydd i ddatblygu prosesau lleol a rhanbarthol sy'n cydymffurfio â gofynion cyffredinol y Cod drafft.
- **Cynnwys cyfeiriadau penodol at wasanaethau plant yn y Cod drafft.** Codwyd hyn mewn ymateb i'r cwestiwn hwn a chwestiynau eraill yn yr ymgynghoriad. Mae'r Cod drafft yn gymwys i bob gwasanaeth a gomisiynir ar gyfer oedolion a phlant a reoleiddir o dan Ddeddf 2016. Bydd gwaith sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad yn dibynnu ar amgylchiadau penodol y gwasanaeth gofal a chymorth rheoleiddiedig a dylai gynnwys diogelwch a llesiant unigolion, ni waeth beth fo'u hoed.
- **Cyfeirio'n benodol at gyrff â chyfrifoldeb arweiniol dros fframweithiau comisiynu cenedlaethol fel Consortiwm Comisiynu Plant Cymru.** Mae'r Cod drafft yn nodi “unrhyw dimau neu unedau comisiynu y mae gweithgareddau comisiynu wedi'u dirprwyo iddynt”. Fodd bynnag, er mwyn bod yn eglur ac yn gyson, mae'r diffiniad o Gomisiynwyr wedi cael ei ddiwygio yn yr Eirfa.
- **Adlewyrchu pwysigrwydd y gweithlu gofal cymdeithasol wrth ddarparu gwasanaethau o ansawdd yn niagram y Cylch Dysgu: Ansawdd.** Rydym wedi diwygio'r diagram yn unol â hynny. Yn fwy cyffredinol, mae Deddf 2016 a Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 (fel y'u diwygiwyd) (yn ogystal â rheoliadau sy'n ymwneud â gwasanaethau rheoleiddiedig eraill) sy'n gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol gwasanaethau rheoleiddiedig,

a'r canllawiau statudol ategol, yn cydnabod rôl a chyfraniad hanfodol staff o ran ansawdd a diogelwch y gwasanaeth.

- **Cynnwys proses apelio i ddarparwyr gwasanaethau.** Y disgwyl yw y bydd unrhyw broses apelio yn rhan o drefniadau a sefydlir yn lleol ac y caiff ei hamlinellu yn nhelerau'r contract. Mae'r Cod drafft yn nodi beth y dylid ei gynnwys mewn contract neu fath o gytundeb ac mae hyn yn cynnwys “hawliau partïon sy'n contractio a chamau unioni ar gyfer anghydfodau a chyfryngu”. Rydym wedi diwygio'r Cod drafft i gynnwys cyfeiriad at apeliadau yn y disgrifiad o'r contract.
- **Cynnwys tasgau diwydrwydd dyladwy ychwanegol yn y siart lif.** Mae'r siart lif yn cynnwys blwch diwydrwydd dyladwy o dan y teitl ‘Amodau cymhwyso eraill y contract’ ac mae hyn yn ddigonol yn ein barn ni. Nid ydym yn bwriadu diwygio'r siart lif.
- **Rhoi mwy o bwyslais ar adborth ansoddol wrth asesu ansawdd gwasanaethau.** Mae'r Cod drafft yn gosod gofyniad ar Gomisiynwyr i driongli pryderon y rhoddir gwybod amdanynt â ffynonellau eraill o dystiolaeth ansoddol. Mae'r troednodyn yn yr adran hon o'r Cod drafft yn rhoi enghreifftiau o dystiolaeth ansoddol. Rydym o'r farn bod yr wybodaeth hon yn gynhwysfawr. Fodd bynnag, rydym wedi diwygio'r adran hon o'r Cod drafft i gadarnhau bod adborth gan randdeiliaid yn cynnwys adborth gan unigolion a'u cynrychiolwyr. Rydym hefyd wedi diwygio'r siart lif yn Atodiad A drwy ychwanegu ‘Unigolion a'u cynrychiolwyr’ at y blwch adborth gan randdeiliaid a gwneud adborth gan randdeiliaid yn rhan o waith monitro contract rheolaidd.

### 2.2 Uwchgyfeirio pryderon mewn gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig

**Cwestiwn 2** – I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r gofynion a osodir ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yn yr adran uwchgyfeirio pryderon o'r cod ymarfer?

**Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymatebion Llywodraeth Cymru**

Roedd 29 o ymatebwyr naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r gofynion arfaethedig yn yr adran hon o'r Cod drafft. Nododd pedwar ymatebydd nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno ac ni chafwyd ymateb gan wyth ymatebydd. Nid oedd unrhyw ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r gofynion arfaethedig.

Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r gofynion a osodir ar Gomisiynwyr a dull strwythuredig y Cod drafft o reoli pryderon a gaiff eu huwchgyfeirio. Roeddent yn croesawu'r ffaith bod y Cod drafft yn cynnwys meini prawf a phrosesau clir a'r pwyslais a roddir ar Gomisiynwyr yn gweithio'n rhagweithiol i atal gweithdrefnau uwchgyfeirio pryderon rhag cael eu rhoi ar waith yn ddiangen. Roeddent hefyd yn croesawu'r hyblygrwydd i gadw gweithdrefnau uwchgyfeirio rhanbarthol effeithiol a'r gallu i ymateb yn briodol i amgylchiadau unigryw achosion unigol gan nodi pwysigrwydd cysondeb cenedlaethol. Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r pwyslais ar gydweithio a chyfathrebu effeithiol. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo'n gadarnhaol am y Cod drafft yn nhermau diogelu unigolion a gwella ansawdd gwasanaethau.

Gofynnodd rhai ymatebwyr am ddull mwy rhagnodol i sicrhau mwy o gysondeb ledled Cymru ac osgoi dyfarniadau goddrychol. Roedd hyn yn cynnwys awgrymiadau am ddisgrifiad manylach o'r trothwyon ar gyfer dechrau'r broses uwchgyfeirio pryderon a mwy o fanylion am beth a olygir gan ‘digon o dystiolaeth’, ‘rheoli ansawdd’ a ‘risg sylweddol’. Mae'r Cod drafft yn nodi disgwyliadau yn union er mwyn cael dull cyson o weithredu ar lefel genedlaethol ond mae hefyd yn cynnig hyblygrwydd ar gyfer prosesau a phenderfyniadau lleol ac arfer barn broffesiynol yn seiliedig ar yr amgylchiadau dan sylw. Rydym wedi diwygio'r meini prawf ar gyfer uwchgyfeirio pryderon yn y Cod drafft i roi mwy o eglurder.

Mae'r Cod drafft yn nodi y dylai Comisiynwyr “ar y cyd â'r darparwr gwasanaeth,... gydgynhyrchu cynllun gweithredu ar bryderon wedi'u huwchgyfeirio”. Mae'r Cod drafft yn nodi mai'r darparwr gwasanaeth yw perchennog y cynllun gweithredu. Mynegodd yr ymatebwyr farn gymysg am berchenogaeth y ‘cynllun gweithredu ar bryderon wedi'u huwchgyfeirio’ a rôl Comisiynwyr. Rydym wedi ystyried y sylwadau hyn. Mae'r Cod drafft wedi cael ei ddiwygio i ailenwi'r cynllun yn ‘gynllun gweithredu gwella’ sy'n adlewyrchu ei ddiben yn well ac yn rhoi mwy o eglurder. Ni all y Cod drafft osod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau – bydd Comisiynwyr yn gwneud hyn drwy eu trefniadau cytundebol â'r darparwr gwasanaeth. Disgwylir i Gomisiynwyr weithio mewn ffordd gydweithredol a chefnogol a gallai'r ‘cynllun gweithredu gwella’ gynnwys camau gweithredu gan Gomisiynwyr a rhanddeiliaid eraill, lle bo hynny'n briodol.

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno â bwriad yr adran ar ‘atal lleoliadau dros dro’ ond roeddent yn poeni y gallai'r gofyniad ‘na chaiff Comisiynwyr ofyn i ddarparwyr na dylanwadu arnynt i gytuno i atal lleoliadau dros dro yn wirfoddol’ gyfyngu ar allu Comisiynwyr i gael trafodaethau adeiladol a chadarn â darparwyr gwasanaethau am eu gallu i ddarparu gwasanaeth diogel i unrhyw leoliadau newydd. Y pryder oedd y gallai hyn olygu bod unigolion yn agored i niwed ac y gallai amharu ar allu Comisiynwyr i weithredu'n gyflym. I'r gwrthwyneb, nododd un ymatebydd y dylai Comisiynwyr wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth ac felly na ddylai fod angen ceisiadau i atal dros dro. Nododd yr un ymatebydd nad yw embargos gwirfoddol yn golygu o reidrwydd y bydd y darparwr yn cadw at y trefniadau hynny. Awgrymwyd hefyd y dylid cynnwys templed asesu risg. Mae hwn wedi'i gynnwys yn y pecyn cymorth. Rydym wedi ystyried yr ystod o safbwyntiau a fynegwyd ac yn cytuno bod y geiriad ‘ni chaiff Comisiynwyr ofyn i ddarparwyr na dylanwadu arnynt’ yn amwys. Rydym wedi diwygio'r Cod drafft i roi mwy o eglurder a sicrwydd ynghylch yr hyn a ddisgwylir gan Gomisiynwyr. Mae'r geiriad diwygiedig yn nodi “Ni chaiff Comisiynwyr ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gytuno i atal trefniadau comisiynu newydd, gan gynnwys lleoliadau newydd, dros dro”. Y rhesymeg yw y dylai Comisiynwyr arfer eu pwerau'n briodol i ddiogelu unigolion rhag niwed y gellir ei atal pan fo pryderon digonol y gallai lleoliadau pellach olygu bod pobl yn wynebu risg yn hytrach na dibynnu ar drefniadau gwirfoddol. Fodd bynnag, mae'r geiriad diwygiedig yn cefnogi trafodaethau tryloyw agored lle bo hynny'n briodol.

Awgrymodd rhai ymatebwyr nad oedd rôl Arolygiaeth Gofal Cymru yn ddigon clir yn y Cod drafft. Mae adran Cyffredinol y Cod drafft yn esbonio rôl yr Arolygiaeth ac yn cynnwys dolen i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Arolygiaeth Gofal Cymru, Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol. Mae'r Cod drafft yn nodi'n glir nad yw cynlluniau gweithredu ar bryderon wedi'u huwchgyfeirio (cynlluniau gweithredu gwella bellach) yn disodli camau gwella a gorfodi sy'n cael eu rhoi ar waith gan yr

Arolygiaeth.  Mae'r Cod drafft yn nodi y bydd angen i Gomisiynwyr a rheoleiddwyr weithio gyda'i gilydd i ddeall rolau a chyfrifoldebau ei gilydd wrth ddelio ag achosion o berfformiad gwael, torri amodau contractau a diffyg cydymffurfio rheoleiddiol. Nid ydym o'r farn bod angen mwy o fanylion ac nid ydym yn bwriadu diwygio'r Cod drafft.

Gofynnodd ymatebwyr  am fwy o fanylion am y gofynion hysbysu yn y Cod drafft. Bydd y Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth yn hysbysu Comisiynwyr am fanylion y broses hysbysu cyn iddi gael ei chyflwyno.

## 2.3 Datgomisiynu

**Cwestiwn 3** – I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r gofynion a osodir ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yn yr adran datgomisiynu o'r cod ymarfer?

### Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymatebion Llywodraeth Cymru

Roedd 28 o ymatebwyr naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r gofynion arfaethedig yn yr adran hon o'r Cod drafft. Nododd saith ymatebydd nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno ac ni chafwyd ymateb gan wyth ymatebydd. Nid oedd unrhyw ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r gofynion arfaethedig.

Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r gofynion a osodir ar Gomisiynwyr ar y cyfan. Maent yn teimlo eu bod yn cynnig dull clir a chynhwysfawr o ddiogelu parhad gofal a chymorth ac ystyried yr effaith economaidd-gymdeithasol ehangach pe caiff gwasanaeth ei gau. Roedd rhai ymatebwyr yn cefnogi'r pwyslais ar roi llesiant pobl wrth wraidd y broses ond teimlai eraill y gellid cryfhau hyn ymhellach gan fynegi pryder y gallai ystyriaethau ariannol a strategol gael eu rhoi uwchlaw anghenion personol. Roeddent yn croesawu'r ffaith bod anghenion y gweithlu yn cael eu cydnabod ond nodwyd nad oes gan Gomisiynwyr reolaeth uniongyrchol dros drefniadau staffio ac y bydd rhwymedigaethau o dan Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (TUPE) yn gymwys lle bo hynny'n briodol. Ystyriwyd bod y pwyslais ar berfformiad, gwerth am arian a pherthnasedd strategol fel rhan o'r cylch comisiynu yn briodol ac yn gyfrifol. Roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r hyblygrwydd i Gomisiynwyr gadw templedi a phrosesau rhanbarthol sy'n gysylltiedig â'r Cod drafft ond mynegodd un ymatebydd bryder am effaith bosibl yr hyblygrwydd hwn ar gysondeb ledled Cymru.

Teimlai'r ymatebwyr yn gryf ei bod yn bwysig sicrhau parhad gofal a chynllunio trefniadau pontio effeithiol. Awgrymodd adborth y dylid cael mwy o fanylion am gynllunio trefniadau pontio gan gynnwys safonau gofynnol ac amserlenni. Mae'r Cod drafft yn gosod gofyniad ar Gomisiynwyr i gyflawni eu dyletswyddau statudol i ddiwallu anghenion unigolion a sicrhau parhad y gwasanaethau a ddarperir drwy broses bontio a reolir yn effeithiol. Rydym wedi cryfhau'r Cod drafft drwy ychwanegu cyfeiriad at anghenion 'a aseswyd' a thrwy nodi'n benodol bod yn rhaid i safbwyntiau, dymuniadau a theimladau unigolion a'u cynrychiolwyr gael eu hystyried wrth wneud unrhyw benderfyniad. Mae'r Cod drafft a'r pecyn cymorth ategol yn cynnwys gwybodaeth am gynllunio'n effeithiol i helpu'r unigolyn i bontio o gael gofal a chymorth gan un darparwr neu leoliad i un arall, pan gaiff gwasanaeth ei ddatgomisiynu neu'i gau. Mae'n caniatáu hyblygrwydd o fewn trefniadau lleol. Cododd un ymatebydd bwysigrwydd rheoli prosesau pontio ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wrth ddatgomisiynu lleoliadau arbenigol ac awgrymodd y dylai'r Cod drafft gynnwys mwy o ganllawiau ar hyn yn ogystal â sicrhau lleoliadau amgen i ddiwallu anghenion a aseswyd. Mae'r Cod drafft yn gymwys i bob gwasanaeth a gomisiynir ar gyfer oedolion a phlant a reoleiddir o dan Ddeddf 2016. Bydd penderfyniadau datgomisiynu yn dibynnu ar amgylchiadau penodol y gwasanaeth gofal a chymorth rheoleiddiedig a dylent gynnwys diogelwch a llesiant unigolion, ni waeth beth fo'u hoed. Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sy'n gyfrifol am gynllunio gwasanaethau a sicrhau bod digon o wasanaethau ar gael i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol.

Mae'r diffiniad o 'ddatgomisiynu' wedi cael ei adolygu a'i ddiwygio mewn ymateb i adborth nad yw datgomisiynu yn arwain o reidrwydd at gau gwasanaeth ac i wahaniaethu rhwng gwasanaethau allanol a mewnol er mwyn bod yn gliriach.

Mae'r rhesymau dros ddatgomisiynu gwasanaeth wedi cael eu hadolygu a'u diwygio mewn ymateb i adborth y dylid gwahaniaethu'n gliriach rhwng perfformiad darparwr a rhesymau strategol dros ddatgomisiynu ac er mwyn rhoi mwyn o fanylion ynghylch rhesymau strategol. Gofynnodd un ymatebydd am eglurder ynghylch sut y dylai perfformiad darparwr gael ei fesur yn erbyn gwerth am arian. Dylid darllen y Cod drafft ar y cyd â'r Fframwaith Cenedlaethol a Safon 5 sy'n cynnwys disgrifyddion gwerth am arian.

Pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd ymgysylltu a chyfathrebu â phobl a'u teuluoedd, gan gynnwys gofalwyr di-dâl, y mae'r broses ddatgomisiynu yn effeithio arnynt. Mae'r Cod drafft wedi cael ei ddiwygio i fandadu Comisiynwyr i roi trefniadau ar waith i gyfathrebu'n effeithiol ag unigolion a'u cynrychiolwyr. Mae'r Cod drafft hefyd wedi cael ei gryfhau er mwyn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiynwyr ystyried hawliau, safbwyntiau, dymuniadau a theimladau unigolion a'u cynrychiolwyr wrth wneud unrhyw benderfyniadau. Er mai'r darparwr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill fydd yn cynnal gweithgareddau cyfathrebu o bosibl, disgwylir i Gomisiynwyr eu goruchwylio o hyd. Mae'r adran hon o'r Cod drafft wedi cael ei diwygio i nodi'n glir bod rhanddeiliaid yn cynnwys y darparwyr gwasanaeth dan sylw.

Rydym wedi diwygio'r Cod drafft mewn ymateb i adborth am eglurder ynghylch rôl Comisiynwyr wrth drosglwyddo'r gweithlu pan gaiff gwasanaeth ei ddatgomisiynu. Mae'r Cod drafft bellach yn nodi bod yn rhaid i'r broses ddatgomisiynu fod yn gyson â dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol Comisiynwyr fel y'u nodir yn Neddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, sy'n cynnwys egwyddorion gwaith teg.

Roedd rhai ymatebion yn awgrymu y dylai'r Cod drafft gyfeirio at y rheoliadau caffael newydd ar gyfer comisiynu gwasanaethau. Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn gosod gofynion ar Gomisiynwyr i gydymffurfio â deddfwriaeth gaffael gyfredol. Nid ydym yn bwriadu diwygio'r Cod drafft i gyfeirio at ddeddfwriaeth gaffael benodol.

Roedd yr adborth arall a gafwyd yn cynnwys:

- **Egluro'r term 'corff comisiynu allanol'.** Rydym wedi diwygio'r Cod drafft i gyfeirio at 'gyrff comisiynu eraill' a fyddai'n cynnwys, er enghraifft, Gomisiynwyr y tu allan i leoliad daearyddol y gwasanaeth neu'r lleoliad daearyddol y mae'n gweithredu ynddo.
- **Symleiddio'r siart lif yn Atodiad C.** Rydym wedi adolygu'r siart lif ac rydym o'r farn ei bod yn gynhwysfawr ac yn gymesur. Mae'n crynhoi'r camau perthnasol i helpu i lywodraethu'r broses ddatgomisiynu ar un dudalen.
- **Egluro'r trefniadau llywodraethu ar gyfer cyllidebau cyfun neu gyfrifoldebau a rennir** Diben y Cod drafft yw sefydlu dulliau gweithredu cyffredin ar gyfer helpu i lywio ymateb Comisiynwyr pan fyddant yn cynorthwyo i ddatgomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig ac yn cyflawni eu dyletswyddau statudol Dylid darllen y Cod drafft ar y cyd â

*Codau a Chanllawiau: Canllawiau Statudol Rhan 9 (Trefniadau Partneriaeth)* sy'n diffinio gweithio integredig ac yn cyfeirio at rannu adnoddau a chyfleusterau, gan gynnwys cyllidebau cyfun. Dylid cytuno ar drefniadau penodol drwy brosesau lleol.

- **Rhoi'r Cod drafft ar waith yn effeithiol** Rydym yn cydnabod y bydd angen cymorth a hyfforddiant ar Gomisiynwyr i ymgyfarwyddo â'r Cod drafft. Mae hyn wedi cael ei adlewyrchu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyhoeddir pan gaiff y Cod drafft ei osod gerbron y Senedd.
- **Sut a phryd y bydd Comisiynwyr yn cael hysbysiadau o ardaloedd eraill.** Bydd y Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth yn hysbysu Comisiynwyr am fanylion y broses hysbysu cyn iddi gael ei chyflwyno.
- **Ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau hysbysu Comisiynwyr eu bod yn tynnu eu gwasanaethau'n ôl.** Mae'r Cod drafft yn gosod gofynion ar Gomisiynwyr. Dylai'r trefniadau rhwng Comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau gael eu nodi mewn prosesau lleol a thelerau cytundebol.

### 2.4 Cau gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig

**Cwestiwn 4** – I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r gofynion a osodir ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yn yr adran cau gwasanaethau rheoleiddiedig o'r cod ymarfer?

### Crynodeb o'r ymatebion ac ymatebion Llywodraeth Cymru

Roedd 28 o ymatebwyr naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r gofynion arfaethedig yn yr adran hon o'r Cod drafft. Nododd pum ymatebydd nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno ac ni chafwyd ymateb gan wyth ymatebydd. Nid oedd unrhyw ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r gofynion arfaethedig.

Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r gofynion a osodir ar Gomisiynwyr a'r cysondeb â dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 2014. Roeddent hefyd yn gefnogol iawn o ddull strwythuredig y Cod drafft o gau gwasanaethau gan gynnwys y pwyslais ar rolau a chyfrifoldebau clir, cyfathrebu effeithiol, a chydweithio amlasiantaethol. Nodwyd bod y Cod drafft yn helpu Comisiynwyr i weithredu'n gyflym gan gynnal hawliau unigolion. Roedd yr ymatebwyr hefyd yn croesawu'r ffaith bod y Cod drafft yn cydnabod yr effaith a gaiff cau gwasanaeth ar yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth gofal a chymorth hwnnw a phwysigrwydd lleihau unrhyw darfu i'r eithaf a sicrhau parhad gofal.

Ystyriwyd bod y pecyn cymorth yn ddefnyddiol i gefnogi'r broses gau. Cyfeiriodd sawl ymatebydd a oedd yn cynrychioli awdurdodau lleol at adnoddau lleol sydd eisoes ar waith ac sy'n gweithio'n dda. Nid yw'r Cod drafft yn mandadu defnyddio'r pecyn cymorth ac felly mae gan Gomisiynwyr yr hyblygrwydd i ddatblygu prosesau lleol a rhanbarthol sy'n cydymffurfio â gofynion cyffredinol y Cod drafft.

Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod y siart lif yn Atodiad D yn crynhoi'r rolau, y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a nodir yn y Cod drafft yn dda gyda chanllawiau clir ynghylch cyfathrebu ac amserlenni. Gofynnodd rhai ymatebwyr gwestiynau am ddiben a natur y dogfennau y cyfeirir atynt yn y siart lif yn Atodiad D – mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y pecyn cymorth. Awgrymwyd y gellid cryfhau'r adran Gwersi a Ddysgwyd o'r siart lif i roi pwyslais ar ddysgu myfyriol a chynnwys barn y darparwr

sy'n gadael. Rydym wedi ystyried yr adborth hwn ac wedi diwygio'r Cod drafft a'r siart lif yn Atodiad D. Cafwyd adborth hefyd a oedd yn awgrymu fod y siart lif yn gwbl drafodaethol ac y dylid pwysleisio pwysigrwydd cyfathrebu ag unigolion a'u cynrychiolwyr, cynnwys unigolion wrth wneud penderfyniadau, a thynnu sylw at y cymorth eirioli sydd ar gael. Y bwriad yw bod y siart lif yn rhoi crynodeb o'r camau lefel uchel i'w hystyried os caiff gwasanaeth ei gau. Mae'r gofynion ar Gomisiynwyr mewn perthynas â'r materion hyn wedi'u nodi'n glir yng nghorff y Cod drafft a'r hyn y dylid ei gynnwys mewn prosesau lleol ac felly nid ydynt wedi cael eu hailadrodd yn y siart lif.

Nododd un ymatebydd nad oes gan Gomisiynwyr yr awdurdod i gau gwasanaethau ac roedd o'r farn y dylid nodi hyn yn gliriach yn y Cod drafft. Mae'r adran hon o'r Cod drafft eisoes yn nodi mai ei diben yw 'sefydlu dulliau gweithredu cyffredin ar gyfer helpu i lywio ymateb Comisiynwyr pan fyddant yn cynorthwyo i gau gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig ac yn cyflawni eu dyletswyddau statudol'. Mae'r Cod drafft hefyd yn nodi'r amgylchiadau gwahanol a allai arwain at gau gwasanaeth ac nid yw'n awgrymu bod gan Gomisiynwyr y pŵer i gau gwasanaethau rheoleiddiedig. Rydym wedi ystyried yr adborth ac wedi diwygio'r Cod drafft er eglurder.

Roedd yr adborth arall a gafwyd yn cynnwys:

- **Cyd-gomisiynu trefniadau llywodraethu.** Diben y Cod drafft hwn yw sefydlu dulliau gweithredu cyffredin ar gyfer helpu i lywio ymateb Comisiynwyr pan fyddant yn cynorthwyo i gau gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig ac yn cyflawni eu dyletswyddau statudol. Mae'r siart lif cau gwasanaeth gofal a chymorth rheoleiddiedig yn cynnwys 'cadarnhau rolau a chyfrifoldebau'.
- **Adnoddau a thempledi i gefnogi asesiadau ariannol er mwyn deall hyfywedd gwasanaeth.** Dylai fod gan Gomisiynwyr brosesau sefydledig ar waith i lywodraethu diwydrwydd dyladwy cyn contract a monitro cynaliadwyedd y darparwr yn barhaus.
- **Effaith cau gwasanaeth ar ofalwyr di-dâl.** Rydym wedi diwygio'r Cod drafft i dynnu sylw at y gofynion a osodir ar awdurdodau lleol o dan Ddeddf 2014 yn yr adrannau datgomisiynu a chau gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig.

### 2.5 Y Gymraeg

**Cwestiwn 5:** Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r Cod Ymarfer drafft ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Yn eich barn chi, beth fyddai'r effeithiau ar y Gymraeg, os o gwbl? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 6:** Sut ydych chi'n credu y gallai'r *Cod Ymarfer drafft ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig* gael ei lunio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

**Crynodeb o'r ymatebion ac ymatebion Llywodraeth Cymru**

Caiff yr ymatebion i gwestiynau 5 a 6 eu trafod gyda'i gilydd yma. Cafwyd 33 o ymatebion i gwestiwn 5 a 31 o ymatebion i gwestiwn 6.

Roedd gan yr ymatebwyr farn gymysg ar effaith y Cod drafft ar y Gymraeg mewn gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig. Er bod rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai'r Cod drafft hyrwyddo dwyieithrwydd mynegodd ymatebwyr eraill bryderon nad oedd ymrwymiad penodol i'r Gymraeg. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn niwtral neu'n teimlo mai bach iawn o effaith fyddai'r Cod drafft yn ei chael.

Awgrymodd ymatebwyr y dylai'r Cod drafft fod yn fwy cydnaws â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a *Mwy na geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol* sy'n cynnwys y 'Cynnig Rhagweithiol'. Dylid darllen y Cod drafft hwn ar y cyd â'r Fframwaith Cenedlaethol. Mae Safon 10 yn ymdrin â chydraddoldebau a hawliau dynol ac yn cynnwys adrannau ar y Gymraeg a 'Mwy na geiriau'. Mae'n nodi'r gofynion ar gyfer partneriaid statudol o ran cydymffurfio â'r holl ddyletswyddau a rhwymedigaethau o ran y Gymraeg a geir mewn deddfwriaeth, codau ymarfer a chanllawiau statudol. Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn bod yn rhaid i wasanaethau gofal a chymorth cyfrwng Cymraeg fod yn hawl a'i fod yn fater o angen a rheidrwydd, nid dewis.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r Cod drafft osod cyfrifoldeb ar Gomisiynwyr i fonitro cydymffurfiaeth darparwr gwasanaeth o ran y Gymraeg fel rhan o adolygiadau contract a monitro effaith newidiadau darparwyr gwasanaeth ar ddarpariaeth Gymraeg. Mae'r awgrymiadau hyn y tu hwnt i gwmpas y Cod drafft.

**2.6 Unrhyw faterion penodol sy'n gysylltiedig ond nad ydynt yn cael eu trafod yn yr ymgynghoriad**

**Cwestiwn 7:** A oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad yw'r ymgynghoriad hwn wedi mynd i'r afael â nhw?

**Crynodeb o'r ymatebion ac ymatebion Llywodraeth Cymru**

Cafwyd 34 o ymatebion i gwestiwn 7.

Roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r ffaith bod y Cod drafft wedi cael ei ymestyn i gynnwys pob gwasanaeth gofal a chymorth rheoleiddiedig a'r pwyslais cryf ar gydweithio, amseroldeb, dysgu, ymarfer myfyriol a gwaith partneriaeth. Nodwyd bod y Cod drafft yn glir ac yn gryno gyda siartiau llif defnyddiol.

Awgrymwyd y dylai'r Cod drafft gyfeirio'n benodol at hawliau pobl anabl o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Mae rhai o hawliau a mesurau diogelu'r Confensiwn wedi'u cynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae Safon 10 o'r Fframwaith Cenedlaethol yn ymdrin â chyfrifoldebau a hawliau dynol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid statudol weithio'n rhagweithiol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a hyrwyddo hawliau dynol. Dylid darllen y Cod drafft hwn ar y cyd â'r Fframwaith Cenedlaethol.

Nododd rhai ymatebwyr fod prosesau a gweithdrefnau lleol yn gymwys i bob gwasanaeth a gomisiynir. Er bod y Cod drafft yn gosod gofynion ar Gomisiynwyr mewn perthynas â gwasanaethau gofal a chymorth rheoleiddiedig, fel y nodwyd gellid ei ddefnyddio fel canllaw arfer da mewn perthynas â gwasanaethau gofal a chymorth na chânt eu rheoleiddio a gwasanaethau gofal a chymorth a gomisiynir gan eraill. Nododd ymatebwyr eraill y dylid rhoi mwy o gydnabyddiaeth i fodelau cymorth amgen wedi'u personoli, gan gynnwys Taliadau Uniongyrchol a microfentrau a sut y gall y rhain gael eu diogelu yn ystod cyfnodau o fethiannau gan ddarparwyr a newidiadau i systemau. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y gwasanaethau a'r modelau hyn, ond mae'r awgrym hwn y tu allan i gwmpas y Cod drafft hwn.

Awgrymwyd nad yw'r Cod drafft yn ymdrin yn ddigonol ag anghenion unigryw gwasanaethau plant mewn meysydd allweddol gan gynnwys sefydlogrwydd lleoliadau, cyfrifoldebau rhianta corfforaethol a phrosesau pontio i blant ag anghenion cymhleth yn ogystal â digonolrwydd y farchnad a chydweithio rhanbarthol. Argymhellodd yr ymatebydd y dylid cynnwys adran neu atodiad penodol gyda chanllawiau wedi'u teilwra ac astudiaethau achos. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd yr holl faterion hyn, ond rydym o'r farn eu bod y tu allan i gwmpas y Cod drafft hwn.

Awgrymodd un ymatebydd y dylai cydymffurfiaeth â'r Fframwaith Cenedlaethol fod yn rhan o waith rheoli a monitro contractau. Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn cynnwys systemau monitro priodol i alluogi partneriaid statudol i gael sicrwydd ynghylch cydymffurfiaeth. Nid ydym wedi diwygio'r Cod drafft.

Gofynnodd ymatebwyr am fwy o eglurder yn y Cod drafft am ba gorff comisiynu sy'n gyfrifol am roi cychwyn ar brosesau uwchgyfeirio pryderon a chau a'u harwain os nad oes gan yr awdurdod lleol y mae'r gwasanaeth wedi'i leoli ynddo unrhyw leoliadau â'r darparwr dan sylw neu os nad yw'n rhannu pryderon awdurdodau lleoli eraill. Dylid darllen y Cod drafft ar y cyd â'r Fframwaith Cenedlaethol sy'n nodi pan gaiff trefniadau contractio eu defnyddio i gyflawni cyfrifoldebau statudol, rhaid i Gomisiynwyr gael systemau monitro a gwerthuso priodol ar waith i gael sicrwydd ynghylch cydymffurfiaeth. Os oes angen gwella ansawdd neu os oes pryderon, dylai pob Comisiynydd reoli a gorfodi ei gontractau ei hun â darparwyr gwasanaethau. Bydd hyn yn cynnwys rhoi cychwyn ar unrhyw broses uwchgyfeirio pryderon ac ymatebion priodol i sicrhau bod Comisiynwyr yn parhau i gyflawni eu dyletswyddau i asesu a diwallu anghenion unigolion pe bai gwasanaeth yn cau. Mae'r Cod drafft yn nodi disgwyliadau i Gomisiynwyr gydweithio ac yn cynnig hyblygrwydd ar gyfer prosesau a phenderfyniadau lleol ac arfer barn broffesiynol yn seiliedig ar yr amgylchiadau dan sylw.
Mae gofynion y Cod drafft hwn yn gweithredu ochr yn ochr â dyletswyddau diogelu asiantaethau unigol, a ddisgrifir yn Neddf 2014.
Mae'r siartiau llif yn y Cod drafft yn manylu ar y canlynol:

- achosion lle byddai'n fuddiol o safbwynt prosesau comisiynu i gynnal trafodaethau rhyngasiantaethol ar welliannau ansawdd a phryderon
- pwysigrwydd sefydlu tîm (a allai gynnwys sawl asiantaeth gomisiynu) a phenodi arweinydd i weithredu ar ran y tîm.

Mae'r Cod drafft yn cynnig hyblygrwydd ar gyfer prosesau a threfniadau lleol yn unol ag amgylchiadau unigol. Mae'r Cod drafft yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiynwyr "hysbysu'r rheoleiddwyr perthnasol a Chomisiynwyr eraill am bryderon ynghylch

ansawdd neu berfformiad …. ar y cam rheoli ansawdd a'r cam uwchgyfeirio pryderon".

Awgrymwyd y dylai Comisiynwyr gael eu hannog i ymgysylltu'n rhagweithiol â Llais i sicrhau bod gwybodaeth leol ac adborth gan ddinasyddion yn cael eu defnyddio i lywio penderfyniadau ym maes rheoleiddio a chomisiynu. Dylai cyrff statudol fod yn ymwybodol o'u dyletswyddau o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Nid ydynt wedi cael eu hailadrodd yn y Cod drafft.

## Adran 3 – Y camau nesaf

Caiff y Cod Ymarfer ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig ei osod gerbron y Senedd ym mis Rhagfyr 2025. Os bydd y Senedd yn cytuno arnynt, bydd y Cod drafft a'r Cyfarwyddiadau a ddyroddir i gyrff perthnasol y GIG yn dod i rym ar 28 Chwefror 2026.

Bydd y dogfennau drafft i gyd ar gael ar wefan y Senedd: Is-ddeddfwriaeth

## Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr

Rhestr o'r ymatebwyr a lenwodd y ffurflen ac a oedd yn barod i rannu eu manylion:

1. Pobl yn Gyntaf Cwm Taf (Rhondda Cynon Taf)
2. Arolygiaeth Gofal Cymru
3. Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
4. Cymdeithas Syndrom Down
5. Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda - Gofal Hirdymor, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu a Gwasanaethau Plant
6. Comisiynydd Pobl Hŷn
7. Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
8. Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
9. Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr - Gofal Cymdeithasol Plant ac Oedolion
10. Grŵp Caron
11. Anabledd Dysgu Cymru
12. Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
13. Fforwm Rhieni a Gofalwyr Pobl ag Anableddau Dysgu Cymru Gyfan
14. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
15. Fforwm Gofal Cymru
16. Cyngor Sir Powys - Gofal Cymdeithasol Oedolion
17. Llais
18. Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
19. Unsain
20. Age Cymru
21. Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
22. Gofal Cymdeithasol Cymru
23. Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru
24. Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro
25. Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol
26. Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful - Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion

Gwrthododd 13 roi caniatâd i rannu eu manylion.